

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Iau 3 Medi, 12.30 - 13.30
Telegynhadledd



<u>Yn Bresennol</u>	
Aelodau'r Bwrdd:	
Y Cynghorydd Huw Thomas	Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd
(Cadeirydd)	Prif Weithredwr, CC
Paul Orders	Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC
Sarah McGill	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
Fiona Kinghorn	Prif Uwch-arolygydd Dros Dro, Heddlu De Cymru
Wendy Gunney	Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru
Jo Salway	Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro
Len Richards	Prif Swyddog Tân, GTADC
Huw Jakeway	Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Hannah Williams	Comisiynydd Heddlu a Throseddu, De Cymru
Alun Michael	Rheolwr Grŵp, GTADC
Keith Meredith	Pennaeth Gweithrediadau De Cymru Canolog, Cyfoeth Naturiol
Michael Evans	Cymru
Ebed Akotia	Rheolwr Canolfan Wirfoddol C3SC
Ymddiheuriadau:	
Charles Janczewski (Is-gadeirydd)	Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP CaF)
Sheila Hendrickson-Brown	Prif Swyddog Gweithredol, C3SC
Mark Brace	Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru
Gareth O'Shea	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro)
Hefyd yn bresennol:	
Dylan Owen	Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, CC
Sian Sanders	Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac
Nathan Swain	Ymgysylltu, CC
Clive Bailey	Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC
Anne Wei	Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC
Geoff Hobbs	Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF
	Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhif	Eitem Agenda	
1 / 2	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 21^{ain} Gorffennaf 2020 a darparodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn camau gweithredu. Nodwyd bod Strategaeth Un Blaned Caerdydd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y BGC, 29^{ain} Medi.</p> <p>Darparwyd diweddariad ar y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol gan roi gwybod i'r Bwrdd am y broses penodiadau cyhoeddus er mwyn sefydlu aelodaeth ac ymgynghoriad cymunedol er mwyn llywio blaenoriaethau.</p> <p>CAM GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifenyddiaeth i rannu cysylltiadau â'r broses penodiadau cyhoeddus, ymgynghori â'r gymuned a'r adroddiad gan yr Athro Ogbonna ar effaith anghymesur Covid-19 ar bobl BAME 	Ysgrifenyddiaeth
3.	<p>Diweddariad COVID-19</p> <p>Rhoddodd Fiona Kinghorn drosolwg o'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer Covid-19 yng Nghaerdydd, gan nodi pryderon bod y gyfradd yn codi.</p> <p>Mae'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio'n dda ac yn gyffredinol mae ffynhonnell yr haint ym mhob achos wedi'i nodi. Canmolodd y partneriaid y system a chynigiodd eu diolch i'r staff dan sylw.</p> <p>Mae Cynllun Atal ac Ymateb Covid-19 Caerdydd a'r Fro yn barod i'w gyhoeddi cyn y cynnydd a ragwelir mewn achosion yn ystod yr hydref a'r gaeaf.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar orfodi cyfyngiadau Covid-19 a lefelau cydymffurfio â chyfarwyddiadau cwarantîn. Mae angen i negeseuon barhau i bwysleisio cyfrifoldeb personol preswylwyr.</p>	
4.	<p>Diweddariad Ailgychwyn ac Adfer y Bartneriaeth</p> <p>Rhoddwyd cyfle i bob sefydliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu camau ailgychwyn ac adfer priodol.</p> <p>Mae'r materion allweddol a amlygwyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod gweithdrefnau dwysáu yn cael eu datblygu os bydd pwyntiau sbarduno allweddol tuag at ailgyflwyno cyfyngiadau yn cael eu taro • Bod system Ffôn yn Gyntaf BIP CAF 24/7 ar waith ac yn derbyn adborth cadarnhaol 	

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> • Canmolwyd partneriaid am eu gwaith yn ymwneud â thrais a cham-drin domestig yn ystod y cyfyngiadau symud • Gydag ysgolion yn ailagor, mae rhaglen ieuenctid Tân ac Achub De Cymru a gweithgareddau dargyfeiriol yn ailddechrau • Bydd angen trafodaeth y BGC ar Brexit mewn cyfarfod yn y dyfodol • Gall digwyddiadau'r rhai sy'n ffres roi pwysau ar wasanaethau, gyda'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr yn cael eu rhagweld yng Nghaerdydd <p>Cafwyd trafodaeth ar y gweithdrefnau dwysáu rhwng y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, y Grŵp Cydgysylltu Strategol (GCS) a'r Grŵp Cydgysylltu Adfer (GCA), ac a yw'r BGC a'r BPRh yn fwy addas i ymateb. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod y Grŵp Cydgysylltu Strategol a'r Comisiwn Brenhinol yn drefniadau wrth gefn sifil sefydledig.</p> <p>Y bwriad yw y byddai Grŵp Arweinyddiaeth BGC Caerdydd a'r Fro ar y cyd, yn ymgynnull, dan Gadeiryddiaeth Cadeirydd y BIP.</p> <p>CAMAU GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod Brexit a chynllunio yng nghyd-destun Covid-19 yn eitemau agenda ar gyfer cyfarfod BGC yn y dyfodol • Jo Salway i fwydo trafodaethau ar weithdrefnau uwchgyfeirio yn ôl i Lywodraeth Cymru <p>Gadawodd Fiona Kinghorn y cyfarfod oherwydd apwyntiad a drefnwyd yn flaenorol.</p>	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Jo Salway</p>
5.	<p>Diweddariad Diogelwch Cymunedol</p> <p>Rhoddodd Sian Sanders ddiweddariad o'r Grŵp Partneriaeth Diogelu a Diogelwch Cymunedol.</p> <p>Nododd y Comisiynydd Alun Michael y gwaith da sydd wedi bod yn cael ei wneud, yn enwedig mewn perthynas ag ôl-groniad gwaith y Llysoedd a Digartrefedd.</p> <p>Gadawodd Jo Salway y cyfarfod oherwydd apwyntiad a drefnwyd yn flaenorol.</p>	
6.	<p>Cyllid grant CNC ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Rhoddodd Michael Evans a Geoff Hobbs drosolwg o gyllid grant Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cael ei ddarparu i bob BGC. Mae £25,000 ar gael i ddatblygu gwaith mewn meysydd fel ymateb i'r argyfwng hinsawdd, creu mannau gwyrdd hygyrch a hybu iechyd a lles yn yr amgylchedd naturiol.</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>CYTUNWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> BGC Caerdydd i fanteisio ar y grant. Cadeirydd i ysgrifennu i dderbyn yn ffurfiol ar ran y BGC. 	Cadeirydd / Ysgrifenyddiaeth
7.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>CYTUNWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> BGC i barhau i gyfarfod yn fisol. <p>Cynigiodd y Comisiynydd Alun Michael fod y BGC yn rhoi sylw i rai materion pwysig a rennir, fel y gwelwyd yn ddiweddar gyda chynllun MMEW.</p>	Ysgrifenyddiaeth
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <p>BGC Caerdydd - 29 Medi 2020 BGC Caerdydd - 22 Hydref 2020</p>	